Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# A4E Cymru Cyf
# Y Warws
# School Lane
# Casnewydd
# NP20 1LE

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓒ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2014**

## Cyd-destun

Darparwr rhyngwladol gwasanaethau sector cyhoeddus rheng flaen yw A4e. Mae'n cyflogi tua 3,000 o bobl sy'n cyflwyno contractau yn Awstralia, India, Ewrop a'r Deyrnas Unedig. Mae prif swyddfa A4e yn Sheffield yn darparu ei holl wasanaethau cymorth canolog. Mae gwasanaethau cymorth canolog yn darparu cymorth yn fyd-eang yn ogystal â thros 200 o leoliadau cyflwyno ledled Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Cyfarwyddwr Sgiliau ac Addysg y DU yn Sheffield sydd â chyfrifoldeb am ddarpariaeth dysgu yn y gwaith (DYYG) y darparwr yng Nghymru. Mae ganddo gontract gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno prentisiaethau a hyfforddeiaethau ledled Gogledd, Canolbarth, De a Gorllewin Cymru. Mae'r darparwr yn cyflwyno'i gontract o chwe lleoliad yng Nghymru ar hyn o bryd: Bae Colwyn yng Ngogledd Cymru, Port Talbot ac Abertawe yn Ne Orllewin Cymru, Porth ac Aberdâr yn Rhondda Cynon Taf a Chasnewydd yn Ne Ddwyrain Cymru. Mae tua 1,045 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu yn y gwaith yng Nghymru ar hyn o bryd, ac mae tua hanner y dysgwyr yn dilyn hyfforddeiaethau a'r gweddill yn dilyn prentisiaethau.

Mae'r darparwr yn defnyddio pedwar is-gontractwr, sef: Bethany Training yng Nghanolbarth Cymru, Plato and Rossett Training yng Ngogledd Cymru a Skill UK yn Ne Orllewin Cymru. Mae'n cyflwyno Twf Swyddi Cymru hefyd yn awdurdodau unedol Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y darparwr yn ddigonol oherwydd:

- mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr ar raglenni hyfforddeiaethau wedi gwella yn 2012 i 2013;
- cynhelir asesiad cychwynnol trylwyr o fedrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr;
- mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn eu hamgylchedd dysgu;
- ceir ystod eang o ddarpariaeth dysgu yn y gwaith sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr; ac
- mae tiwtoriaid yn cynllunio hyfforddiant i fodloni anghenion prentisiaid unigol yn dda.

Fodd bynnag:

- mae deilliannau ar gyfer dysgwyr wedi islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y sector yn gyson dros y tair blynedd diwethaf;
- mae dysgwyr yn gwneud cynnydd araf mewn gormod o sesiynau;
- nid yw dysgwyr yn gwella'u medrau Cymraeg ddigon; ac
- mae ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu yn rhy anghyson ar draws y ddarpariaeth.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella cyffredinol y darparwr yn ddigonol oherwydd:

- mae arweinwyr a rheolwyr wedi cymryd camau effeithiol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr hyfforddeiaethau;
- mae gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cyflwyno contract Llywodraeth Cymru yn y darparwr;
- mae perthnasoedd gweithio effeithiol rhwng yr aseswyr a'r cyflogwyr;
- ceir cyfathrebu da rhwng Prif Swyddfa A4e ac uwch reolwyr y darparwr yng Nghymru; ac
- mae'r darparwr yn rheoli ei isgontractwyr yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw'r gweithredu gan arweinwyr a rheolwyr wedi bod yn gwbl effeithiol wrth wella deilliannau ar gyfer dysgwyr ar y rhaglen prentisiaeth;
- nid oes darpariaeth WiFi yn y rhan fwyaf o ganolfannau felly ni roddir cyfleoedd da i ddysgwyr a thiwtoriaid ddefnyddio adnoddau dysgu ar-lein;
- ni chaiff cyflogwyr ac isgontractwyr eu cynnwys yn ddigon da yn y prosesau hunanasesu; ac
- nid yw pob un o'r staff a'r isgontractwyr yn dilyn arferion gweithredol yn gyson.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cyfraddau y mae pob un o'r dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau arnynt yn llwyddiannus

A2 Gwella medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr

A3 Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg

A4 Gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu

A5 Sicrhau bod pob un o'r staff a'r isgontractwyr yn cymhwyso'i weithdrefnau gweithredol yn gyson ar draws y ddarpariaeth

A6 Gwneud yn siŵr bod pob tiwtor a dysgwr yn cael cyfle i ddefnyddio adnoddau dysgu ar-lein

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn mynnu bod y darparwr yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad yn ei gynllun gwella i'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) fel rhan o'r cylch cynllunio gwelliant rheolaidd. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwr.

Bydd tîm bach o arolygwyr yn ymweld â'r darparwr i farnu cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu ymhen rhyw 12 mis.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Er 2009, ac eithrio 2011-2012 pan roedd deilliannau islaw'r cyfartaledd ar gyfer y sector dysgu yn y gwaith, mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr prentisiaeth a hyfforddeiaeth wedi bod yn ddigonol, ychydig islaw cyfartaledd y sector. Fodd bynnag, mae data ar gyfer 2012 i 2013 yn dangos gwelliant sylweddol yn y deilliannau ar raglenni hyfforddeiaeth, sydd bellach yn dda.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae rhai dysgwyr wedi cwblhau eu fframweithiau hyfforddi yn hwyrach na'r disgwyl. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth bron pob un o'r dysgwyr gwblhau eu rhaglenni hyfforddi yn llwyddiannus o fewn y raddfa amser a gynlluniwyd.

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn ystod eu hyfforddiant yn ddigonol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol ac yn ymgymryd â'u hyfforddiant yn dda ar y cyfan. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau tiwtoriaid ac aseswyr, gan ddangos medrau llafar da. Fodd bynnag, mewn gormod o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn gosod targedau digon heriol i ddysgwyr ac mae eu dysgu yn symud yn rhy araf.

Caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol da i nodi eu lefelau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae mwyafrif y dysgwyr yn ennill eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) ar gyfradd foddhaol. Nid yw medrau rhifedd mwyafrif y dysgwyr wedi'u datblygu ddigon, a chollir cyfleoedd wrth fynd i'r afael â'r rhain ym mhrif raglenni hyfforddi dysgwyr, yn enwedig yn y gweithle.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd rhesymol wrth wella'u medrau ysgrifennu a chânt adborth defnyddiol gan eu haseswyr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu a gramadegol, ac yn eu hailadrodd dros gyfnod.

Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n datblygu eu medrau Cymraeg trwy eu rhaglenni astudio. Caiff dysgwyr dwyieithog gyfle i gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ond ychydig iawn ohonynt sy'n manteisio ar hyn.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn hapus ac yn mwynhau eu rhaglenni dysgu. Maent yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau hyfforddi ac maent yn hyderus y byddai'r darparwr yn delio ag unrhyw faterion o ran bwlio ac aflonyddu yn gyflym ac yn effeithiol pe byddent yn codi.

Gall rhai dysgwyr roi esboniad da ynghylch sut i fwyta ac yfed yn iach. Mae dysgwyr ar leoliadau gofal plant yn siarad yn hyderus am gadw'n iach. Fodd bynnag, ychydig

iawn o ddysgwyr ar raglenni eraill sy’n dangos dealltwriaeth o effaith agweddau ehangach ar les, fel ymarfer corff, ar eu ffyrdd o fyw.

Mae dysgwyr o ddwy o ganolfannau’r darparwr wedi cymryd rhan yn dda mewn cystadleuaeth genedlaethol sy’n cael ei rhedeg gan elusen sy’n darparu grantiau bach i bobl ifanc 16-24 oed gynnal prosiect i wella medrau trin arian yn eu cymuned. Mae hyn wedi gwella ymwybyddiaeth y dysgwyr hyn o’r anawsterau ariannol sy’n wynebu rhai teuluoedd yn y gymuned leol. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr ar draws y darparwr sy’n cymryd rhan mewn gwaith cymunedol neu elusennol.

Mae llawer o ddysgwyr hyfforddeiaeth yn cwblhau cymwysterau rhagarweiniol yn llwyddiannus mewn iechyd a diogelwch a, lle bo’n berthnasol, rhoddir cyfle iddynt ennill dyfarniadau perthnasol yn benodol i sector fel y rhai mewn adeiladu. Mae dysgwyr eraill yn cyflawni unedau cymwysterau, sy’n cynnwys agweddau ar les fel rhan o’u cymwysterau craidd. Mewn lleoliadau ysgol, roedd dysgwyr yn defnyddio’r wybodaeth hon yn dda, gan ymgorffori testunau lles mewn arddangosfeydd ystafell ddosbarth.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt berthynas dda â chyfoedion a staff.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae’r darparwr yn cyflwyno ystod gynhwysfawr o raglenni dysgu yn y gwaith sy’n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr a chyflogwyr yn dda.

Mae tiwtoriaid yn datblygu ymwybyddiaeth gynnar dda o nodau tymor hwy dysgwyr prentisiaeth. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda wrth gynllunio hyfforddiant i wella dyheadau swydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o diwtoriaid yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau cynllunio gyrfa drostynt eu hunain o ganlyniad.

Mae’r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi medrau hanfodol mewn cyd-destun ac yn eu hymgorffori’n dda mewn rhaglenni hyfforddi dysgwyr. Caiff lleiafrif o ddysgwyr ar raglenni hyfforddeiaeth gyfleoedd da i ymestyn eu medrau, eu hyder a’u datblygiad personol trwy fedrau allweddol ehangach gwella’ch dysgu eich hun, gweithio gyda phobl eraill a datrys problemau. Fodd bynnag, ni chaiff yr arferion hyn eu defnyddio’n ddigon cyson ar draws y darparwr.

Mae’r darparwr yn gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwneud asesiad diagnostig cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Gwna ddefnydd da o’r canlyniadau i nodi anghenion dysgwyr unigol. Fodd bynnag, nid yw targedau llawer o ddysgwyr ar gyfer gwella’u medrau llythrennedd a rhifedd yn ddigon penodol. Nid yw tiwtoriaid yn gwneud defnydd cyson o ganllaw marcio defnyddiol y darparwr a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer sillafu, atalnodi a gramadeg.

Mae'r darparwr yn dechrau gwneud cynnydd da wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ddiwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr a staff yn hyrwyddo manteision datblygu'r iaith Gymraeg yn ddigon da.

Mae cyfleusterau ailgylchu defnyddiol ar gael ym mhob un o ganolfannau'r darparwr, ynghyd ag arddangosfeydd da ar y waliau i annog dysgwyr i feddwl am leihau gwastraff. Mae llawer o aseswyr yn trafod egwyddorion addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) gyda dysgwyr yn ystod adolygiadau, ond mae hyn yn aml ar lefel arwynebol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan fwyafrif y tiwtoriaid a'r aseswyr wybodaeth bynciol a thechnegol dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynorthwyo dysgwyr yn dda, a thrwy eu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda chyflogwyr ac aseswyr, gallant fanteisio'n dda ar dystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol wrth gynllunio asesiadau prentisiaid.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau defnyddiol sy'n cynnwys nodau ac amcanion clir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu a hyfforddi, gan gynnwys clipiau fideo, trafodaethau dan arweiniad, ymarferion ar bapur a thasgau yn seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth sy'n darparu ar gyfer ystod eang o arddulliau dysgu. Mae rhai tiwtoriaid ac aseswyr yn datblygu deunyddiau addysgu defnyddiol, y maent yn eu haddasu yn unol â diddordebau neu anghenion unigolion. Yn y rhan fwyaf o sesiynau grŵp, mae tiwtoriaid yn ennyn diddordeb dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mewn gormod o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn herio dysgwyr yn ddigon da ac mae'r sesiwn yn symud yn rhy araf i weddu i anghenion dysgwyr. Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o sylw i anghenion amrywiol gwahanol grwpiau o ddysgwyr wrth iddynt gynllunio a chyflwyno sesiynau. Nid yw lleiafrif o diwtoriaid ac aseswyr yn gwirio i weld a yw dysgwyr wedi gwneud cynnydd yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Nid yw llawer o diwtoriaid yn cynllunio gwersi a chynlluniau asesu yn ddigon da i wella medrau dysgwyr mewn llythrennedd neu rifedd yn systematig.

Mewn tua hanner y sesiynau, mae tiwtoriaid yn asesu medrau ymarferol dysgwyr yn dda. Maent yn cofnodi deilliannau asesu'n dda, ac yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol i ddysgwyr ar sut i wella safon eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid ac aseswyr yn cynnal adolygiadau yn fethodolegol ac maent yn rhoi sylw da i adolygu gwaith dysgwyr ers yr ymweliad diwethaf. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r targedau a'r amcanion a osodir gan aseswyr yn canolbwyntio'n ddigon clir ar yr hyn y mae angen i'r dysgwr ei ddysgu ac nid ydynt yn cyfeirio'n ddigonol at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae gan y darparwr weithdrefnau ymsefydlu cynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys rhaglen ragflas dda ar gyfer y cyfnod cyn ymsefydlu, sy'n helpu dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau difrifol rhag dysgu, i benderfynu p'un a ydynt am fwrw ymlaen â'u hyfforddiant ai peidio.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn arwain trafodaethau priodol ar iechyd, gofal a lles yn dda yn ystod y rhan fwyaf o sesiynau ystafell ddosbarth ac mewn tua hanner o adolygiadau dysgwyr. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn atgyfnerthu iechyd a diogelwch yn effeithiol yn ystod adolygiadau mwyafrif y dysgwyr. Mae canolfannau'r darparwr yn cynnwys ffynonellau gwybodaeth defnyddiol i ddysgwyr yn ymwneud â thestunau fel iechyd rhywiol a chyfleoedd cyflogaeth. Mae staff y ganolfan a chyflogwyr yn monitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn dda yn rheolaidd. Mae'r darparwr yn cadw nodiadau defnyddiol yn erbyn enwau dysgwyr i gofnodi unrhyw anghenion o ran hyfforddiant neu gymorth i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid oes system glir i gofnodi anghenion canfyddedig dysgwyr a chydlynu ymateb y darparwr i'r rhain.

Mae'r darparwr wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'n asesu anghenion cymorth dysgu dysgwyr ag anawsterau dysgu penodol am nad oes ganddo staff cymwys i wneud hynny. Pan fydd angen, mae'n cyfeirio dysgwyr at asiantaethau priodol eraill.

Er bod arweiniad da i ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth, nid yw'r darparwr yn rhoi digon o ystyriaeth i fedrau a chymwysterau'r dysgwyr wrth eu lleoli ar hyfforddeiaethau.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r darparwr yn sicrhau bod ei holl ganolfannau yn cynnig amgylchedd cefnogol, gofalgar a chroesawgar i'w ddysgwyr.

Yn y cyfnod ymsefydlu, caiff dysgwyr gyflwyniad effeithiol i bolisïau ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu hatgyfnerthu'n ddigon da yn adolygiadau mwyafrif o ddysgwyr. Mae llawer o aseswyr yn colli cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth aseswyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth ymhellach yn eu hadolygiad hefyd.

At ei gilydd, mae'r cyfleusterau yng nghanolfannau'r darparwr yn addas at eu diben. Gall mwyafrif y dysgwyr fanteisio ar ystod briodol o gyfleusterau sy'n bodloni eu hanghenion. Caiff detholiad da o waith dysgwyr ei arddangos yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth ac ar draws y canolfannau. Mae'r arddangosfeydd hyn yn gwella'r amgylchedd dysgu ac yn helpu i hyrwyddo gweithgareddau cyfoethogi sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles a diwylliant Cymru.

Ym mwyafrif y canolfannau, gall dysgwyr a thiwtoriaid fanteisio ar ystod ddigonol o adnoddau dysgu. Fodd bynnag, nid oes Wi-Fi ar gael yn unrhyw un o ganolfannau'r darparwr. O ganlyniad, ni all dysgwyr a thiwtoriaid fanteisio ar ddeunyddiau addysgu a dysgu ar-lein.

Yn y mwyafrif o achosion, mae safonau adeiladau cyflogwyr yn dda. Maent yn darparu amgylcheddau priodol i ddysgwyr ennill medrau yn gysylltiedig â gwaith ac ymgymryd ag asesiadau.

Nid oes mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn na dysgwyr y mae eu symudedd yn gyfyngedig mewn dwy o ganolfannau'r darparwr. Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi gwneud trefniadau eraill addas i ddysgwyr ag anableddau gael mynediad at adeiladau eraill addas lle gallant ymgymryd â'u hyfforddiant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae Cyfarwyddwr Gweithrediadau A4e yn y DU, arweinydd Cymru a thîm rheoli Cymru yn darparu arweinyddiaeth briodol ar gyfer darpariaeth A4e yng Nghymru. Mae Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r DU ac arweinydd Cymru yn gymharol newydd i'r sefydliad yn dilyn ailstrwythuro A4e 18 mis yn ôl. Ar y cyd â Phennaeth Ansawdd A4e yn y DU, maent wrthi'n datblygu gweledigaeth a strategaeth briodol ar gyfer A4e Cymru ar hyn o bryd. Mae'n rhy gynnar i farnu effaith lawn hyn ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae'r strwythur adrodd rhwng prif swyddfa A4e yn y DU, uwch reolwyr a rheolwyr canol yng Nghymru yn glir. Mae gan bob un o'r rheolwyr rolau a chyfrifoldebau diffiniedig. Mae hyn yn cynnwys rheoli ei chwe chanolfan hyfforddi yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda'i bedwar is-gontractwr sy'n cyflwyno prentisiaethau ar lwybrau hyfforddi nad ydynt yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan y darparwr.

Mae'r grŵp rheoli yng Nghymru yn dangos dealltwriaeth briodol o'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud i sicrhau gwelliant yn y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac yn ansawdd eu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid ydynt wedi gosod strategaeth glir eto ar sut y byddant yn gweithio tuag at gyflawni rhagoriaeth mewn hyfforddi, asesu a deilliannau i ddysgwyr.

Mae'r darparwr yn defnyddio'i weithdrefnau gweithredol a rheoli ar draws ei chwe chanolfan hyfforddi yn fwy cyson erbyn hyn. O ganlyniad, yn y cyfnod rhwng 2012 a 2013, llwyddodd rheolwyr y darparwr i wella deilliannau dysgwyr ar y rhaglen hyfforddeiaeth trwy sicrhau bod staff yn dilyn prosesau presennol yn fwy trylwyr i fonitro cynnydd a deilliannau dysgwyr. Nid yw'r gwaith hwn wedi cael effaith ddigon da ar y rhaglen prentisiaeth eto.

## Gwella ansawdd: Digonol

Cynhaliodd y darparwr adolygiad pwysig o'i arferion sicrhau ansawdd yn ddiweddar. Nododd hyn nad oedd staff y darparwr yn ogystal â staff isgontractwyr yn defnyddio'r gweithdrefnau presennol i fonitro perfformiad a chyflwyno hyfforddiant yn ddigon da. Ers hynny, mae'r darparwr wedi cyflwyno gweithdrefnau adrodd wythnosol systematig ac mae hyn wedi helpu i nodi unrhyw agweddau ar danberfformio yn ddigon cynnar i gymryd camau effeithiol. Mae rheolwyr yn olrhain perfformiad dysgwyr yn dda erbyn hyn.

Mae gan y darparwr broses hunanasesu fanwl a sefydledig, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o agweddau ar ei waith. Mae'r rhan fwyaf o reolwyr yn ymwneud yn agos â'r

broses hunanasesu. Fodd bynnag, nid yw isgontractwyr yn cymryd rhan yn y broses. Mae'r adroddiad hunanasesu yn fanwl ond yn aml yn rhy ddisgrifiadol. Mae'n gorbwysleisio cryfderau'r ddarpariaeth.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn ddogfen fanwl sy'n nodi agweddau allweddol lle mae angen cymryd camau i wella perfformiad. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn gosod targedau a cherrig milltir clir ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn targedau.

Mae'r darparwr yn gofyn am safbwyntiau dysgwyr trwy fforymau dysgwyr ac adborth gan ddysgwyr yn ystod adolygiadau. Mae'n defnyddio arolwg Llais y Dysgwr hefyd ac yn cyfeirio'n dda at ei ganfyddiadau yn yr adroddiad hunanasesu.

At ei gilydd, mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn 2008.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r gan y darparwr berthynas waith dda ag isgontractwyr. Mae'n trin ei is-gontractwyr fel partneriaid ac mae'n agored a thryloyw bob tro y mae'n delio â nhw. Mae'n cynnwys staff is-gontractwyr mewn cyfarfodydd safoni rheolaidd ac mae'n rhoi cyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol iddynt. Fodd bynnag, ni chaiff is-gontractwyr eu cynnwys ddigon mewn cynllunio a gweithredu arferion i wella cyfleoedd i ddysgwyr.

Mae gwaith partneriaeth presennol y darparwr yn cynnwys ei gyfranogiad mewn rhai o'r rhwydweithiau 14-19 ledled Cymru a'r ffaith ei fod yn aelod o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC). Fodd bynnag, cyfyngedig yw ymglymiad y darparwr mewn partneriaethau allanol eraill wrth gynllunio a chyflwyno hyfforddiant. Er enghraifft, er gwaethaf ei ddarpariaeth Cymru gyfan, nid yw perthnasoedd gwaith y darparwr gyda sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, darparwyr dysgu yn y gwaith eraill a sefydliadau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill wedi'u datblygu ddigon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan staff y darparwr y wybodaeth, y medrau a'r profiad priodol i gyflwyno'r rhaglenni amrywiol i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddigon o staff i roi cymorth Cymraeg i ddysgwyr. Mae'r darparwr yn defnyddio'i staff yn dda i wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u profiad. Mae gan staff feichiau gwaith priodol i'w galluogi i gyflwyno rhaglenni a chynorthwyo eu dysgwyr yn dda.

Mae'r darparwr yn defnyddio'r system rheoli perfformiad staff a ddatblygwyd gan ei brif swyddfa yn dda ac mae'n sicrhau bod gan ei is-gontractwyr systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff.

At ei gilydd, mae gan ganolfannau'r darparwr adnoddau ac offer sydd o leiaf yn ddigonol ac weithiau'n dda. Fodd bynnag, nid oes gan y darparwr Wi-Fi na chyfleusterau mewnrwyd llawn yn unrhyw un o'i ganolfannau.

Mae tîm cyllid prif swyddfa'r darparwr wedi rhoi rheolaethau ariannol priodol ar waith ar gyfer y darparwr, gan gynnwys cytuno ar gyllideb i Gymru i gyflwyno contract Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn briodol i anghenion y darparwr, yn arbennig gan fod y darparwr yn gallu defnyddio adnoddau arbenigol ei brif swyddfa i gefnogi ei weithgareddau yng Nghymru.

Mae arweinydd Cymru wedi rhoi trefniadau da ar waith i ddatganoli cyllidebau unigol, gan gynnwys targedau busnes, i bob un o reolwyr y ganolfan. Mae'r rhain yn ffurfio dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur perfformiad rheolwyr canolfannau.

Mae'r darparwr yn darparu addysg a hyfforddiant digonol ar gyfer eu dysgwyr. Mae'n darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Rydym yn defnyddio deilliannau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio pob un o'n harolygiadau o addysg a hyfforddiant ôl-16. Arolwg boddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru rhwng Ionawr a Chwefror 2013.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- boddhad cyffredinol.

Mae pob thema yn cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr. Mae 28 cwestiwn i gyd.

Llenwyd yr arolwg gan dri chant a phedwar deg wyth o ddysgwyr, sef 33% o boblogaeth dysgwyr y darparwr.

Roedd pum deg tri y cant o ymatebwyr yn ystyried bod y darparwr yn dda iawn ar y cyfan. Mae hyn saith pwynt canran yn is na chyfartaledd y sector, sef 60%. Roedd 36% arall yn ystyried bod y darparwr yn dda yn gyffredinol. Roedd wyth deg naw y cant o ymatebwyr yn credu bod eu cwrs yn well nag yr oeddent yn ei ddisgwyl. Mae hyn yn agos at gyfartaledd y sector, sef 90%.

Cyflawnodd y darparwr sgorau is na chyfartaledd y sector ar gyfer graddfeydd da iawn ym mhob un o bum thema'r arolwg ac eithrio un, sef iechyd a lles. O ran y thema ar iechyd a lles, ystyriai dysgwyr fod y darparwr yn debyg i gyfartaledd y sector, sef 45%, da iawn. Teimlai rhwng 33% a 40% o ymatebwyr fod y darparwr yn 'dda' yn erbyn y pum thema.

Mae'r darparwr yn cyflawni sgorau ar gyfer 'da iawn' sydd ymhlith yr isaf yn y sector ar draws y rhan fwyaf o'r 28 cwestiwn yn yr arolwg. At ei gilydd, ystyriai 87% o ymatebwyr fod addysgu a hyfforddi yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Mae'r arolwg yn dadansoddi ymatebion dysgwyr yn ôl gwybodaeth ddemograffig hefyd – rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd. Yn gyffredinol, mae'r darparwr yn cyflawni sgorau 'da iawn' is na chyfartaledd y sector ar draws pob un o'r demograffegau allweddol ar gyfer pob cwestiwn. Fodd bynnag, mae dysgwyr 19-24 oed a dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol yn rhoi sgorau uwch na chyfartaledd y sector ar draws y rhan fwyaf o'r cwestiynau.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Bernard O'Reilly | Arolygydd Cofnodol |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Sally Stringer | Arolygydd Tîm |
| Catrin Rees | Arolygydd Cymheiriaid |
| Christopher Thomas Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Celia Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Caroline Peek | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alan Mackey | Enwebai’r Darparwr |